Ieuan Wyn Jones AC/AM
Dirprwy Brif Weinidog /Deputy First Minister

Alun Ffred Jones AC/AM
Y Gweinidog dros Dreftadaeth /Minister for Heritage

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf/Our ref SF/DFM/0001/10

Sandy Mewies AM
Chair
Communities & Culture Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1AA

26 April 2010

Dear Sandy,

**Making the Most of Major Sporting Events in Wales**

We very much welcomed the opportunity of contributing to this inquiry. During our discussion with the Committee on 18th of March we agreed to provide some additional information on a number of points which were raised by Members during the meeting.

One of the key issues for the Committee was the need for a clear definition of a major sporting event. I attach a copy of our consultation document where you will find a list of the event categories in section 2. We believe that the definitions we have provided make clear the types of event which we will support and those which we will not support.

The Committee also asked about a calendar of planned major sporting events. At present there is no centrally managed calendar for major events. However, you will note from our consultation document that one of the key actions which we are proposing is the development of a national calendar of major events. In the meantime, the Major Events Unit is working closely with local authorities and with national governing bodies of sport to identify gaps in the calendar which might usefully accommodate events that Wales may wish to develop, attract or bid for.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyf: AE/GE/sjw
Dyddiad: 7 Ebrill 2010

Annwyl Gyfaill

**DIGWYDDIADAU YNG NGHYMRU: DATBLYGU STRATEGAETH AR GYFER DIGWYDDIADAU MAWR YNG NGHYMRU (2010 – 2020)**

Heddiw lansiwyd Strategaeth Digwyddiadau Mawr Ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad Atodaf gopïau o'r ddogfen ymgynghori. Gellir gweld copïau hefyd ar lein ar www.cymru.gov.uk/twristiaeth. Y iwrnod cau ar gyfer ymatebion yw 4 Mehefin 2010.

Yn ystod 2009 gwahoddwyd dros 80 o unigolion a sefydliadau sydd ynghlwm wrth y diwydiant digwyddiadau mawr i gymryd rhan mewn cyfres o weithdai ar draws Cymru er mwyn trafod y ffordd ymlaen. Gobeithiwn fod y prif negeseuon a nodwyd yn ystod y sesiynau hynny wedi eu cynnwys a'u hadlewyrchu'n deg yn y ddogfen hon. Gobeithiwn hefyd y byddwch yn cytuno ein bod drwyddi draw ar y trywydd iawn ond yn bwysicach na hynny y byddwch yn fodlon mynegi barn ar y ddogfen. Beth bynnag yw eich barn, byddwn yn ddiolchgar iawn am dderbyn unrhyw sylwadau gennych yn y cyfnod allweddol hwn o'r broses. Heb os, gyda'ch cymorth chi mae modd mireinio a gwella'r Strategaeth. Ein bwriad yw cyhoeddi'r Strategaeth derfynol cyn y digwyddiad mwyaf i'w gynnal yng Nghymru erioed, Cwpan Ryder 2010.

Mae hefyd yn fwriad gennym i drefnu Cynhadledd Digwyddiadau Mawr Cenedlaethol ar yr un pryd. A fyddech gystal â rhoi gwybod i ni os gwelwch yn dda os hoffech gael mwy o fanylion am y digwyddiad hwn maes o law.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth ar yr ymgynghoriad ewch at www.cymru.gov.uk/twristiaeth. Neu peidiwch ag oedi rhag cysylltu â fi neu Gwilym Evans (ffôn 029 20475272 neu ebost:gwilym.evans@wales.gsi.gov.uk)

Edrychwn ymlaen at gael clywed gennych

Yn gywir iawn

**ARTHUR EMYR**
**Pennaeth Digwyddiadau Mawr**

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Tŷ Brunel ▪ Brunel House
Ffordd Fitzalan ▪ Fitzalan Road
Caerdydd ▪ Cardiff
CF24 0UY

Ffôn * Tel 029 2047 5406 / 07790 820771
Ffacs * Fax 029 2048 5031
arthur.emyr@wales.gsi.gov.uk
GTN: 0845 0103300

Finally, the Committee asked for a list of consultees for our consultation on the Major Events Strategy. As we discussed during the meeting, the Major Events Unit undertook an extensive stakeholder engagement exercise with the events industry in Wales (and the UK) during the early part of 2009. I attach a list of those organisations and individuals that took part in the workshops. As you know, we are now undertaking an open public consultation. We attach for the Committee's information, a copy of the letter which has been sent to key stakeholders and partners informing them of the consultation.

We look forward to seeing the Committee's report in due course.

**Ieuan Wyn Jones**
**Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for the Economy and Transport**

**Alun Ffred Jones AC/AM**
**Y Gweinidog dros Dreftadaeth**
**Minister for Heritage**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Digwyddiadau yng Nghymru

Datblygu Strategaeth ar gyfer Digwyddiadau Mawr yng Nghymru (2010 – 2020)

Dyddiad cyhoeddi: **7 Ebrill 2010**
Ymatebion erbyn: **4 Mehefin 2010**

**Y Weledigaeth ar gyfer Cymru yn 2020**

Caiff Cymru ei chydnabod fel cyrchfan eithriadol o wych ar gyfer digwyddiadau mawr.

**Datganiad Cenhadaeth**

Datblygu portffolio cynaliadwy o ddigwyddiadau mawr sy'n cryfhau enw da Cymru'n rhyngwladol ac yn hyrwyddo lles ei phobl a'i chymunedau.

75% wedi'i ailgylchu recycled

G/MH/3594/03-10
ISBN 978 0 7504 5555 8

Mawrth
CMK-22-04-045(495)

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2010

# Trosolwg

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am gyhoeddi Strategaeth ar gyfer Digwyddiadau Mawr yng Nghymru i fynd ati mewn ffordd fwy cydlynol a strategol i gefnogi digwyddiadau mawr yn y dyfodol. Nod cyffredinol y strategaeth fydd creu portffolio systematig a chynaliadwy o ddigwyddiadau o fri rhyngwladol, er mwyn dod â budd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol tymor hir i bobl Cymru, a chael y gorau o bob ceiniog o'n harian cyhoeddus.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar y Strategaeth ddrafft ar gyfer Digwyddiadau Mawr yng Nghymru yn 2010-2020. Rydym yn awyddus i glywed eich sylwadau ar: bwrpas a chwmpas y strategaeth; yr egwyddorion a'r meini prawf craidd a fydd yn llywio'n penderfyniadau; rôl arweinyddiaeth yr Uned Digwyddiadau Mawr; y cynigion bras ar gyfer creu fframwaith ymchwil a gwerthuso; y cynllun gweithredu ar gyfer datblygu'r strategaeth.

### Sut i ymateb

Rhaid i'ch ymateb gyrraedd erbyn 4 Mehefin 2010 fan bellaf. Llenwch yr holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon. Cewch bostio'ch ymateb i'r cyfeiriad isod, neu ei e-bostio i:

eventwalesconsult@wales.gsi.gov.uk

Cafodd y strategaeth ddrafft ei chynhyrchu ar ôl cyfnod hir o siarad â rhanddeiliaid y diwydiant digwyddiadau yng Nghymru (a Phrydain) ar ddechrau 2009. Yn sgil hynny, rydym wedi penderfynu cynnal ymgynghoriad byrrach (wyth wythnos) nag arfer.

### Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Mae copïau caled o'r ddogfen hon ar gael ar gais o'r cyfeiriad isod.

I weld crynodeb o'r drafodaeth â rhanddeiliaid, cliciwch ar:

www.cymru.gov.uk/twristiaeth

### Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Gwilym Evans, Digwyddiadau Mawr a Gemau Llundain 2012,
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan,
Caerdydd, CF24 0UY

E-bost: gwilym.evans@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2047 5272

### Diogelu Data

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n rheoli'r holl ddata sydd yn eich ymateb i'r ymgynghoriad.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a hefyd, lle bo'n ymarferol, yn cyhoeddi'r ymatebion eu hunain. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad awdur yr ymateb (neu

ran ohono) yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb, gan fod hynny'n rhoi hygrededd i'r broses ymgynghori. Os nad ydych am gael eich adnabod fel awdur eich ymateb, rhaid nodi hynny'n ysgrifenedig ac yn glir.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhannu'r ymatebion â swyddogion ar draws yr Adran er mwyn eu helpu i baratoi ymgyngoriadau yn y dyfodol.

### Beth ydym am ei newid?

Yn y blynyddoedd diweddar, mae Cymru wedi llwyddo i ddenu a chynnal digwyddiadau mawr rhyngwladol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw strwythur cydlynol i greu'r portffolio digwyddiadau gorau posibl i Gymru, nac i gael y budd a'r elw gorau o'r digwyddiadau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cefnogi. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad ac asiantaethau eraill yng Nghymru wedi bod yn adweithiol yn bennaf, gan ymateb i geisiadau neu i gynigion gan berchnogion digwyddiadau. Mewn rhai achosion, ceisiadau munud olaf oedd y rhain am arian i achub digwyddiad oedd yn wynebu anawsterau ariannol.

Mae'r diwydiant digwyddiadau yng Nghymru wedi dweud wrthym fod creu strategaeth gydlynol i gefnogi digwyddiadau mawr yn gwbl hanfodol i Gymru allu cystadlu'n fwy effeithiol mewn marchnad fyd-eang sy'n mynd yn fwyfwy cystadleuol. I ategu'r strategaeth, dylid creu fframwaith asesu agored a thryloyw er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad (a'i phartneriaid) allu gwneud penderfyniadau ariannol cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, lle mae llawer o graffu ar wariant cyhoeddus, mae'n hollbwysig cael fframwaith strategol cadarn i ni allu asesu a blaenoriaethu'n buddsoddiadau mewn digwyddiadau mewn ffordd deg a gwrthrychol.

### Pa wahaniaeth fyddwn ni'n ei wneud?

Bydd ein Strategaeth ar gyfer Digwyddiadau Mawr yng Nghymru yn dangos y ffordd ymlaen i'r diwydiant digwyddiadau yng Nghymru, wrth i ni weithio mewn partneriaeth i greu enw rhyngwladol i Gymru fel y wlad orau i'w dewis ar gyfer cynnal digwyddiadau mawr.

Mae'r fframwaith asesu o fewn y strategaeth yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau yn *Cymru'n Un*. Bydd yn sicrhau bod yr effaith gadarnhaol ar Gymru a'r budd tymor hir a ddaw i'w phobl, yn ganolog i'n prosesau cynllunio a'n penderfyniadau buddsoddi. Nid dull asesu ceisiadau am arian yn unig fydd hwn; yn hytrach, bydd y cael ei ddefnyddio yn rhagweithiol i nodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau y gallai Cymru eu datblygu, eu denu neu wneud cais i'w cynnal. Bydd y fframwaith hwn yn elfen hollbwysig o'n hymdrechion i sicrhau ein bod yn cael y gorau o bob ceiniog o'n harian cyhoeddus wrth fuddsoddi mewn digwyddiadau mawr yn y dyfodol.

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Cwpan Rygbi'r Byd 1999, chwech o gemau terfynol Cwpan yr FA, Prawf y Lludw 2009, Cwpan Ryder 2010, Gŵyl y Gelli ac Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen wedi ennyn enw da cynyddol i Gymru fel cyrchfan o safon fyd-eang ar gyfer digwyddiadau mawr. Nid cyd-ddigwyddiad ydyw fod hyn wedi digwydd yn ystod degawd hanesyddol lle daeth Cymru'n gyfrifol am faterion datganoledig a lle daeth llywodraeth yng Nghymru yn fwy abl i ymateb yn effeithiol i gyfleoedd.

1.2 Mae digwyddiadau mawr rhyngwladol yn dylanwadu ar y modd yr edrychwn ar Gymru a'r byd, a sut y mae'r byd yn gweld Cymru. Mae sicrhau enw da a delwedd brand bositif i Gymru yn her bwysig sydd wedi'i chydnabod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd strategaeth lwyddiannus ar gyfer adeiladu portffolio cynaliadwy a chytbwys o ddigwyddiadau mawr yn parhau i gyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni'r amcan hwn gan ddod â nifer o fanteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a phellgyrhaeddol i Gymru.

1.3 Mae gennym yn awr seiliau cadarn ar gyfer sicrhau lle i Gymru mewn marchnad fyd-eang sy'n hynod gystadleuol. Bydd Cwpan Ryder 2010 yn dod â Chymru i sylw'r byd fel na ddigwyddodd erioed o'r blaen, a bydd Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 yn cael effaith debyg ar y DU yn gyffredinol. Bydd cyfleoedd newydd yn cael eu creu o ganlyniad. Mae'r strategaeth integredig hon, ochr yn ochr ag agenda *Cymru'n Un* Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn amlinellu sut y byddwn yn gweithredu'n fwy rhagweithiol i gyflawni ein potensial. Mae'n disgrifio sut y byddwn yn arwain o ran sefydlu dull mwy cydlynol o weithredu trwy greu fframwaith strategol cryf a fydd yn defnyddio ac yn datblygu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd yr holl unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n ymwneud â digwyddiadau mawr ar draws y genedl.

1.4 Y nod sylfaenol yw creu portffolio systematig a chynaliadwy o ddigwyddiadau o safon fyd-eang a fydd yn arwain at fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor i bobl Cymru, yn ogystal â sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus yng Nghymru. Rydym eisoes wedi cymryd cam sylweddol ymlaen trwy sefydlu Uned Digwyddiadau Mawr o fewn Llywodraeth y Cynulliad er mwyn arwain o ran gweithredu mewn modd mwy cydlynol a strategol yng Nghymru.

1.5 Yn amlwg, mae'r dirwasgiad byd-eang yn her sylweddol i ni o ran cyflawni ein gweledigaeth. Er bod gofyn i ni fod yn uchelgeisiol, rhaid i ni hefyd fod yn realistig o ran yr hyn y gellir ei gyflawni, yn arbennig o ran y cynigion posibl ar gyfer Mega Ddigwyddiadau fel y'u diffinnir yn yr adran nesaf. Yn yr hinsawdd ariannol presennol, lle cedwir llygad fanwl ar gyllidebau, mae'n bwysig bod y strategaeth hon yn gosod fframwaith a fydd yn ein galluogi i fod yn fwy craff er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiad mewn digwyddiadau mawr yn cael ei dargedu'n effeithiol ac yn helpu i wella ffyniant a lles hirdymor pobl Cymru.

# 2 Beth yw digwyddiadau mawr?

2.1 Mae'n bwysig ein bod yn glir ynglŷn â phwrpas a sgôp y strategaeth hon. Y prif ffocws yw datblygu a manteisio ar bortffolio o ddigwyddiadau sydd wedi'i gynllunio i sicrhau canlyniadau positif i Gymru. Dylai digwyddiadau a gefnogir fod yn gydnaws â natur ein cymunedau, yn ogystal ag anghenion a dyheadau pobl Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae hynny'n golygu bod angen cymhathu'r gorau o'n hetifeddiaeth ddiwylliannol a'n traddodiadau gydag agwedd ddeinamig, gyfoes, gan sicrhau cydbwysedd o ran yr angen i gefnogi'r hyn sy'n arloesol, arbrofol ac anarferol.

2.2 Mae pedwar categori ar gyfer digwyddiadau a fydd yn cael eu cefnogi trwy'r strategaeth hon.

- **Digwyddiadau Mawr** – digwyddiadau peripatetig sy'n cael eu diffinio yn ôl eu maint a'u hapêl o ran denu a dylanwadu ar gynulleidfaoedd rhyngwladol mawr a sicrhau sylw sylweddol yn y cyfryngau, yn ogystal â chael impact economaidd a dod â nifer sylweddol o ymwelwyr i'r gyrchfan. Mae modd iddynt gael eu gwylio gan gynulleidfaoedd teledu ledled y byd a denu noddwyr rhyngwladol sylweddol. Gallant gael effaith bositif o ran dylanwadu ar garfanau penodol o'r farchnad a newid agweddau ac ymddygiad. Nid Cymru sy'n "berchen" ar y digwyddiadau rhyngwladol hyn a byddai'n rhaid iddi gael ei dewis fel lleoliad yn erbyn cystadleuaeth ryngwladol. Rhai enghreifftiau o'r math yma o ddigwyddiad yw Gêm Brawf y Lludw, Gêm Derfynol Cwpan Heineken a Gwobrau MOBO (Cerddoriaeth o Darddiad Du).

- **Digwyddiadau Unigryw** – fel arfer, mae'r rhain yn ddigwyddiadau sy'n cael eu hailadrodd ac maent yn hyrwyddo delwedd a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru, yn gwella lles pobl sy'n byw yng Nghymru ac yn rhoi profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr. Maent naill ai'n unigryw i Gymru neu'n neilltuol Gymreig o ran eu natur, ac maent yn adlewyrchu ein diwylliant, ein traddodiadau a'n gwerthoedd. Mae Digwyddiadau Unigryw llwyddiannus yn gallu parhau i ysbrydoli ac ailddenu eu cynulleidfaoedd.

  Wrth ddiffinio Digwyddiadau Unigryw, mae'n bwysig i ni wahaniaethu rhwng digwyddiadau brodorol sefydledig fel Gŵyl y Gelli, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen a Sioe Frenhinol Cymru, a digwyddiadau mwy newydd fel Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Wakestock sy'n parhau i ennill eu plwyf ym mywyd diwylliannol Cymru.

- **Mega Ddigwyddiadau** – fel digwyddiadau mawr, mae'r rhain yn ddigwyddiadau peripatetig gydag apêl fyd-eang. Maent yn nodedig gan eu bod fel arfer yn cael eu cynnal yn dilyn prosiectau cyfalaf mawr, ac yn gofyn am adeiladu lleoliadau ac is-adeileddau newydd i'w cefnogi. Mae angen ymdrech sylweddol wrth roi cais at ei gilydd a lefel uchel o adnoddau a chefnogaeth gan y llywodraeth ar bob cam, o'r cynnig cychwynnol i gyflawni'r digwyddiad. Fel arfer, mae hyn yn golygu creu sefydliad ar wahân, gyda chyllideb wedi'i chlustnodi'n benodol, i reoli'r broses o'i dechrau i'w diwedd. Ymhlith yr enghreifftiau mae Gemau'r Gymanwlad a Chwpan Ryder.
- **Digwyddiadau Twf** – mae'r rhain yn ddigwyddiadau llai gydag ôl troed a ffocws sy'n rhanbarthol, yn lleol neu'n seiliedig ar sector penodol, neu'n ddigwyddiadau newydd uchelgeisiol sydd â photensial i esblygu a thyfu a dod yn Ddigwyddiadau Mawr neu Unigryw i Gymru. Gall y digwyddiadau hyn hefyd weithredu fel cerrig milltir o ran hybu capasiti, profiad a hygrededd Cymru fel cyrchfan, a bod yn rhagflaenydd hynod bwysig ar gyfer cynnal digwyddiadau mawr wedi'u targedu. Bydd y rhain yn cael eu hystyried ar gyfer cefnogaeth. Elfen bwysig o'r gwerth a ychwanegir trwy fuddsoddi yw creu a meithrin digwyddiadau cynhenid, a thrwy hynny gefnogi ymdrechion i ddatblygu diwydiant digwyddiadau cryf a chynaliadwy yng Nghymru. Mae Hanner Marathon Caerdydd yn enghraifft o'r math hwn o ddigwyddiad.

2.3 Ceir disgrifiad manylach o rôl benodol yr Uned Digwyddiadau Mawr wrth gefnogi'r digwyddiadau hyn yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, ond mae'n amlwg fod rhaid i'r Uned weithredu fel noddwr strategol o fewn cyfnod penodedig, yn hytrach nag fel corff sy'n dyrannu grantiau cylchol. Ni all y gefnogaeth ariannol (a'r gefnogaeth arall) a gynigir gan yr Uned gymryd lle arian craidd a roddir gan gyrff cyhoeddus eraill.

# 3 Pam buddsoddi mewn digwyddiadau mawr?

3.1 Mae digwyddiadau mawr yn dal dychymyg pobl ledled y byd, ac mae ymchwil yn dangos eu bod yn cynnig manteision economaidd sylweddol ac yn gwella enw da a phroffil rhyngwladol y wlad a'r lleoliad lle cânt eu cynnal. Mae cydnabyddiaeth gynyddol hefyd y gall digwyddiadau mawr ysbrydoli a chydio yn nychymyg amrywiaeth helaeth o unigolion a chymunedau a thrwy hynny hyrwyddo lles cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

3.2 Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yw Cymru ffyniannus, hyderus ac allblyg. Mae ein rhaglen ar gyfer gwireddu'r weledigaeth wedi'i chynnwys yn *Cymru'n Un*. Gall digwyddiadau mawr wneud cyfraniad positif iawn tuag at wireddu'r weledigaeth honno, a dod â phob math o fanteision mewn nifer o feysydd polisi.

- **Ein Dyfodol Iach** – gall digwyddiadau mawr gynnig llwyfan ar gyfer cyfathrebu negeseuon positif a rhoi profiadau go iawn i bobl er mwyn annog ffordd iach o fyw. Er enghraifft, trwy roi cyfle i bobl gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon mawr gellir codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch pwysigrwydd ymarfer corff.
- **Cymdeithas Ffyniannus** – gall digwyddiadau mawr fod yn sbardun ar gyfer mentrau newydd a thwf busnes, gan arwain at greu swyddi hirdymor o ansawdd uchel. Gallant hefyd helpu i hyrwyddo a thynnu sylw at dwristiaeth mewn marchnadoedd allweddol, a chefnogi arallgyfeirio yn yr economi wledig.
- **Cymunedau Byw** – mae digwyddiadau mawr llwyddiannus yn gallu creu dolenni cyswllt â chymunedau trwy gyfleoedd gwirfoddoli'n lleol, annog pobl i gymryd rhan a chynnig profiad o wylio digwyddiadau'n fyw, yn ogystal â thrwy wahanol gyfryngau.
- **Dysgu i Fyw** – mae digwyddiadau mawr yn ddiwydiant cyffrous sy'n gofyn am ystod o sgiliau, o reoli prosiect a chyllid i farchnata, y cyfryngau a chyfathrebu. Gall digwyddiadau gyfrannu at greu'r amgylchiadau cywir i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer economi fodern, greadigol.
- **Cymdeithas Deg a Chyfiawn** – gall digwyddiadau mawr llwyddiannus helpu pobl a chymunedau i gyflawni eu llawn botensial, yn cynnwys rhaglenni allgymorth sy'n targedu grwpiau lleiafrifol a rhai anodd eu cyrraedd.
- **Amgylchedd Cynaliadwy** – mae digwyddiadau mawr sy'n rhagweithiol o ran cyfrannu at yr agenda rheoli digwyddiadau cynaliadwy yn codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, ac yn tynnu sylw at ymarfer da mewn meysydd megis defnyddio ynni adnewyddadwy, trafnidiaeth integredig, ailgylchu gwastraff a chaffael nwyddau a gwasanaethau lleol.

- **Diwylliant Cyfoethog ac Amrywiol** – mae digwyddiadau mawr yn tynnu sylw at hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth unigryw Cymru, maent yn gatalydd ar gyfer arloesedd a mynegiant diwylliannol ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'n prif artistiaid ac athletwyr gael arddangos eu talentau ar lwyfan byd-eang.

# 4 Egwyddorion Sylfaenol

4.1 Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion sylfaenol sy'n nodi y bydd y portffolio o ddigwyddiadau mawr a gefnogir gan Lywodraeth y Cynulliad:

- yn cyd-fynd yn llwyr gyda *Cymru'n Un* a strategaethau a blaenoriaethau cysylltiedig Llywodraeth y Cynulliad,
- yn adlewyrchu brand Cymru ac yn hyrwyddo enw da a phroffil Cymru yn rhyngwladol,
- yn dod â manteision clir a mesuradwy i Gymru trwy ddangos adenillion ar fuddsoddiad, sicrhau trosoledd sylweddol ac ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau presennol neu arfaethedig,
- yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu gwasgaru'n deg ar draws Cymru,
- yn taro cydbwysedd rhwng denu digwyddiadau rhyngwladol untro; meithrin a datblygu digwyddiadau presennol; a hybu a chreu digwyddiadau newydd,
- yn cynyddu amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd ohoni mewn digwyddiadau yng Nghymru, a chodi proffil yr iaith yng Nghymru a thu hwnt,
- yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau Cymru, yn cynnwys cyfleusterau adeiledig a'n hamgylchedd naturiol eithriadol,
- yn dilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy, yn unol â'r Safon Prydeinig 8901:2007 ar Reoli Digwyddiadau Cynaliadwy, yn cynnwys gweithredu ar sail cynllun busnes cadarn gyda strwythurau llywodraethu a rheoli cryf,
- yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu cynghreiriau strategol newydd, partneriaethau newydd a dulliau newydd o gydweithio a sicrhau bod yr agenda digwyddiadau mawr yn cael ei hystyried yn llawn mewn rhaglenni gwariant cyfalaf, lle bo hynny'n briodol.

# 5 Sut byddwn yn penderfynu pa ddigwyddiadau mawr i'w cefnogi?

5.1 Bydd yr egwyddorion hyn yn sail i fframwaith asesu clir a thryloyw ar gfyer dethol digwyddiadau i'w cefnogi. Fel cam cyntaf, bydd pob digwyddiad yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf sy'n gysylltiedig â *Cymru'n Un*. Bydd y meini prawf sydd yn y tabl isod yn cael eu defnyddio yn ystod trafodaethau cynnar gyda pherchnogion digwyddiadau er mwyn ystyried yr achos strategol ar gyfer buddsoddi. Bydd hyn yn sicrhau bod impact ac ôl-effaith y digwyddiad yn cael ei ystyried yn llawn ac yn rhan ganolog o'r broses gynllunio o'r cychwyn cyntaf.

| Cymru'n Un | Meini Prawf ar gyfer Asesu |
|---|---|
| Ein Dyfodol Iach | • Cefnogi amgylcheddau cymdeithasol a ffisegol sy'n hybu iechyd a lles |
| Cymdeithas Ffyniannus | • Cefnogi swyddi hirdymor o ansawdd uchel<br>• Annog mentrau newydd a thwf busnes<br>• Hybu twristiaeth mewn marchnadoedd allweddol<br>• Cefnogi arallgyfeirio yn yr economi wledig |
| Cymunedau Byw | • Cefnogi gweithredu gwirfoddol a gwirfoddoli'n lleol<br>• Hybu a chefnogi busnesau cymdeithasol neu gymunedol |
| Dysgu i Fyw | • Galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau bywyd angenrheidiol i gefnogi economi fodern, greadigol |
| Cymdeithas Deg a Chyfiawn | • Cefnogi rhaglenni allgymorth sydd wedi'u targedu at grwpiau lleiafrifol a rhai anodd eu cyrraedd |
| Amgylchedd Cynaliadwy | • Codi ymwybyddiaeth o faterion cynaliadwyedd<br>• Cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr<br>• Cwtogi ar wastraff drwy ei leihau a'i ailddefnyddio a thrwy ddarparu cyfleusterau ailgylchu ar safleoedd lle cynhelir digwyddiadau<br>• Cael effaith niwtral neu bositif ar yr amgylchedd<br>• Dangos cynnydd tuag at gyrraedd safon BS8901 ar gyfer Rheoli Digwyddiadau'n Gynaliadwy |

| Cymru'n Un | Meini Prawf ar gyfer Asesu |
|---|---|
| Diwylliant Cyfoethog ac Amrywiol | • Hyrwyddo, cefnogi a defnyddio'r iaith Gymraeg<br>• Cynyddu mynediad at y celfyddydau ac annog pobl i gymryd rhan<br>• Cefnogi datblygiad sector celfyddydol o safon uchel yng Nghymru<br>• Rhoi cyfleoedd proffil uchel i artistiaid ac athletwyr berfformio a chystadlu yn eu gwlad eu hunain<br>• Hyrwyddo celfyddydau ac artistiaid o Gymru ym Mhrydain a gweddill y byd<br>• Cynyddu mynediad at chwaraeon a gweithgareddau corfforol ac annog pobl i gymryd rhan<br>• Cefnogi llwyddiant Cymru ym myd chwaraeon ar lwyfan rhyngwladol<br>• Hyrwyddo brand Cymru mewn marchnadoedd tramor allweddol<br>• Rhoi profiadau o safon fyd-eang i gynulleidfaoedd yng Nghymru |

5.2 Bydd y fframwaith asesu hwn yn fwy na dull o asesu ceisiadau am arian. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn modd rhagweithiol i wneud gwaith ymchwil i nodi digwyddiadau y gall Cymru eu datblygu, eu denu neu gystadlu amdanynt. Bydd yn ein galluogi i asesu gwerth digwyddiadau mewn modd gwrthrychol a theg. Nid rhestr wirio mo'r fframwaith – ni fydd rhaid i ddigwyddiadau sy'n ceisio cefnogaeth gan Lywodraeth y Cynulliad 'dicio pob blwch'. Ond bydd rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth sy'n dangos yn glir fod y gallu ganddynt i sicrhau nifer o ganlyniadau ar draws sawl maes polisi.

5.3 Yn amlwg, bydd rhaid i ddigwyddiadau hefyd fod yn fforddiadwy gan ei bod bron yn sicr y bydd y galw am gefnogaeth yn fwy na'r ddarpariaeth, ac na fydd modd rhoi cefnogaeth ariannol i'r holl ddigwyddiadau.

5.4 Er bod disgwyl i'r portffolio o ddigwyddiadau a gefnogir ddod ag adenillion economaidd positif i Gymru, byddwn yn ceisio cael cydbwysedd priodol o ran buddsoddi mewn digwyddiadau sy'n cynnig manteision economaidd sylweddol a'r rheini a fydd yn dod â manteision cymdeithasol-ddiwylliannol. Bydd cyfuniad o fesurau

meintiol ac ansoddol yn rhoi’r hyblygrwydd sy’n angenrheidiol i fedru ymateb yn effeithiol i’r gwahanol fathau o ddigwyddiadau mewn gwahanol leoliadau.

5.5 Mae’n briodol bod y Strategaeth Digwyddiadau Mawr hon i Gymru yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan, ac a fydd gan, ein Prifddinas, Caerdydd o ran cryfhau enw da Cymru fel lleoliad rhyngwladol ar gyfer digwyddiadau mawr. Rhaid i ni gydnabod hefyd mai Caerdydd fydd dewis cyntaf llawer o berchnogion digwyddiadau. Bydd sicrhau buddsoddiad priodol mewn digwyddiadau sy’n tynnu sylw at Gaerdydd fel prifddinas eithriadol yn nodwedd allweddol wrth symud ymlaen. Fe fyddwn, fodd bynnag, yn ymdrechu hefyd i wasgaru cyfleoedd yn deg ar draws Cymru ac i ymateb i nodau a dyheadau partneriaid lleol a rhanbarthol. Bydd cryfder yr ymrwymiad gan bartneriaid lleol a rhanbarthol yn ffactor allweddol yn ein holl benderfyniadau buddsoddi.

# 6 Gweithio gyda'n gilydd dros Gymru

6.1 Mae nifer o fanteision penodol o fod yn genedl 'lai' o ran poblogaeth, yn enwedig y gallu i symud yn sydyn ac yn effeithiol i sefydlu partneriaethau 'Tîm Cymru' wedi eu harwain neu eu cefnogi gan y Llywodraeth. Mae partneriaethau hyblyg, cydlynol a phendant yn hanfodol er mwyn cynnal digwyddiadau mawr ac maent yn ddeniadol i berchnogion digwyddiadau pan fônt yn chwilio am leoliad. Mae llwyddiant amlwg partneriaethau 'Tîm Cymru' wrth gynnal digwyddiadau fel Gêm Brawf y Lludw 2009 a Chwpan Ryder 2010 yn fodelau ar gyfer creu dull mwy systematig a strategol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y blynyddoedd sydd i ddod.

6.2 Mae ymdeimlad o undod o ran diben a strwythur yn hanfodol er mwyn gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus. Mae'n anhepgor fod ystod amrywiol a chymhleth o sefydliadau yn ymwneud â chefnogi a chynnal digwyddiadau yng Nghymru. Mae'n bwysig fod yr holl sefydliadau sy'n rhan o'r diwydiant digwyddiadau yng Nghymru yn rhannu'r un weledigaeth ac yn meddu ar yr un teimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb mewn perthynas â gwireddu strategaeth genedlaethol sy'n gweithio dros bobl a chymunedau ledled Cymru.

6.3 Bydd datblygu cysylltiadau a phartneriaethau cryf y tu allan i Gymru hefyd yn hanfodol er mwyn gallu gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus. Rhaid i'r partneriaid hynny fod yn hyderus bod ymdrechion 'Tîm Cymru', gydag arweiniad gan y strategaeth hon a chefnogaeth gan y Llywodraeth, yn cynnig cyfle eithriadol.

6.4 Prif rôl yr Uned Digwyddiadau Mawr fydd arwain a chydlynu'r gwaith o weithredu'r strategaeth hon. Ar y cyfan, ni fydd yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnal digwyddiadau mawr, dim ond trwy gefnogi ac ychwanegu gwerth at y sefydliadau sydd yn gysylltiedig â hwy. Prif swyddogaethau'r Uned yw:

- cydlynu gweithgareddau'n ymwneud â digwyddiadau mawr ledled Cymru, o nodi cyfleoedd i gyflenwi a gwerthuso ar ôl y digwyddiad, bod yn bwynt cyswllt ar gyfer perchnogion digwyddiadau sy'n awyddus i gynnal digwyddiadau mawr yng Nghymru,
- nodi a denu digwyddiadau sy'n cyd-fynd orau ag anghenion a dyheadau Cymru,
- datblygu cysylltiadau effeithiol gyda pherchnogion digwyddiadau, dylanwadwyr a rhanddeiliaid yn y DU ac yn rhyngwladol,
- nodi a manteisio ar arbenigedd sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru er mwyn datblygu dull mwy proffesiynol a systematig o gynllunio, rheoli a chynnal digwyddiadau, gan helpu i greu'r amgylchiadau addas ar gyfer rhannu sgiliau a gwybodaeth arbenigol,

- dyrannu cyllid mewn modd agored a thryloyw gan ddefnyddio dulliau asesu a gwerthuso sy’n seiliedig ar feini prawf,
- nodi a manteisio ar gyfleoedd am drosoledd sy’n sicrhau’r budd goran posibl i Gymru,
- darparu cyngor ac arweiniad strategol i berchnogion a threfnwyr digwyddiadau,
- hyrwyddo pwysigrwydd digwyddiadau mawr a chapasiti Cymru ymhlith cynulleidfaoedd mewnol ac allanol, yn cynnwys ymchwilio a rhannu arfer da rhyngwladol,
- sicrhau bod cyllid cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau yn amodol ar ymrwymiad gan drefnwyr digwyddiadau mewn meysydd penodol megis defnyddio, integreiddio a chodi proffil yr iaith Gymraeg a rheoli digwyddiadau mewn modd cynaliadwy,
- adolygu’n rheolaidd y cyd-destun strategol ar gyfer cefnogi a buddsoddi mewn digwyddiadau mawr.

6.5 Wrth ymgymryd â’r swyddogaethau hyn, bydd yr Uned yn mynd ati i sefydlu partneriaethau cryf ac effeithiol ar draws ffiniau daearyddol, sefydliadol a sectoraidd. Byddwn yn gweithio’n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid a grwpiau rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector.

6.6 Fel partneriaid strategol allweddol ac awdurdodau cynllunio, mae’n briodol ein bod yn gwneud cyfeiriad penodol at rôl bwysig llywodraeth leol. Mae llawer o’r profiad o reoli digwyddiadau yng Nghymru ar hyn o bryd yn bodoli oddi fewn i awdurdodau lleol, ac mae llawer o’r lleoliadau sy’n addas ar gyfer digwyddiadau mawr yn eiddo i awdurdodau lleol neu’n cael eu rheoli ganddynt. Gall digwyddiadau mawr roi naws am le a chreu balchder bro mewn cymunedau lleol ac mae gan awdurdodau lleol rôl arweiniol i’w chwarae o ran meithrin cysylltiadau postif â’u cymunedau i sicrhau’r gefnogaeth leol a rhanbarthol sy’n hynod bwysig ar gyfer llwyddiant digwyddiad mawr neu ddigwyddiad unigryw. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau allweddol i gefnogi digwyddiadau, yn arbennig ym maes iechyd a diogelwch, trafnidiaeth a rheoli gwastraff. Wrth wireddu’r strategaeth hon, rydym yn awyddus i archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn dull consortiwm wrth gydweithio â llywodraeth leol lle bynnag y bo hynny’n addas.

6.7 Ymhlith y partneriaid allweddol eraill bydd:

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Perchnogion a threfnwyr digwyddiadau masnachol (ac eraill lle bo’n addas) yng Nghymru, ledled y DU ac yn rhyngwladol

- Perchnogion a gweithredwyr lleoliadau masnachol
- Fforymau economaidd yng Nghymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru
- Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
- Sefydliadau proffesiynol, gwirfoddol a rhai'n ymwneud â chelfyddydau cymunedol
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Yr heddlu a'r gwasanaethau brys
- Darparwyr trafnidiaeth
- Ffederasiynau chwaraeon a chyrff llywodraethu yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol
- UK Sport
- Croeso Cymru a Phartneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru

6.8 Rydym wedi cydweithio'n agos â nifer o'r sefydliadau a'r grwpiau hyn wrth ddatblygu'r strategaeth hon. Mae'n awr yn hollbwysig eu bod yn cymryd y strategaeth hon i ystyriaeth wrth iddynt hwythau weithredu'n strategol mewn perthynas â digwyddiadau mawr. Yn benodol, rydym yn awyddus iddynt ei hystyried fel rhan o'u prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar faterion ariannu.

6.9 Pan fo denu digwyddiad i Gymru yn golygu mynd trwy broses ymgeisio, bydd yr Uned Digwyddiadau Mawr yn arwain ac yn cefnogi partneriaid (er enghraifft, awdurdodau lleol a chyrff rheoli chwaraeon) wrth wneud cais am ddigwyddiadau newydd. Bydd hyn yn golygu nodi digwyddiadau rhyngwladol mawr y dylai Cymru gystadlu amdanynt, creu'r partneriaethau mwyaf addas er mwyn cyflwyno cais llwyddiannus; a sefydlu perthnasau gwaith cryf gyda pherchnogion digwyddiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr Uned yn cefnogi partneriaid yn hytrach nag arwain y cais. Rôl yr Uned Digwyddiadau Mawr o ran ceisiadau posibl mewn perthynas â Mega Ddigwyddiadau (fel y'u diffinnir yn Adran 2 y ddogfen hon), fydd rheoli'r gwaith cychwynnol yn cynnwys paratoi cyngor i Weinidogion ar faterion yn ymwneud â dichonolrwydd, dadansoddiad cost/budd ac asesiad ymlaen llaw o'r effaith bellgyrhaeddol.

# 7 Sut byddwn yn mesur llwyddiant?

7.1 Rhaid monitro a gwerthuso buddsoddiad yr Uned Digwyddiadau Mawr yn ofalus, nid yn unig er mwyn mesur effaith y digwyddiadau eu hunain, ond hefyd er mwyn asesu effeithiolrwydd ein cefnogaeth o ran sicrhau'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â *Chymru'n Un*.

7.2 Mae amrywiaeth y diwydiant digwyddiadau o ran ei natur, ei gynnwys a'i sgôp yn galw am fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso. Bydd hyn yn sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hasesu mewn modd cyson a pherthnasol a bod lefel yr ymchwil a'r gwerthuso yn addas ar gyfer maint digwyddiadau unigol yn y portffolio.

7.3 Bydd y fframwaith yn cynnwys cymysgedd effeithiol o ddulliau ymchwil a gwerthuso er mwyn asesu'n holistaidd effeithiau economaidd, cymdeithasol-ddiwylliannol, amgylcheddol a'r impact o ran sylw yn y cyfryngau.

7.4 Efallai y bydd digwyddiadau mawr iawn yn gofyn am gomisiynu astudiaethau ymchwil a gwerthuso penodol: mae'n anhebygol y bydd digwyddiadau llai yn gofyn am waith mor fanwl. Serch hynny, bydd yr egwyddorion a'r methodolegau sylfaenol a ddefnyddir wrth ddatblygu'r fframwaith yn cael eu cymhwyso, cyn belled ag y bo modd, ar draws yr holl ddigwyddiadau a geir yn y portffolio, ond gan gadw ffocws ar flaenoriaethau cenedlaethol ar yr un pryd.

7.5 Bydd hefyd yn bwysig datblygu'r fframwaith hwn fel adnodd ar gyfer perchnogion, trefnwyr a noddwyr digwyddiadau er mwyn rhoi canllawiau ymarferol iddynt mewn perthynas â'r data allweddol y mae angen ei mewnbynnu a hefyd, lle bo'n ofynnol, y dulliau mwyaf effeithiol o gasglu data.

7.6 Mae fframweithiau tebyg yn cael eu datblygu mewn rhannau eraill o'r DU (e.e. gan UK Sport ac o dan yr English Tourism Intelligence Partnership). Byddwn yn cydweithio gyda sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau bod y dulliau a ddatblygir mor gymharus â phoisbl ac i sefydlu, lle bynnag y bo modd, ddulliau a methodolegau cyffredin. Trwy hynny, mae'n debygol y ceir synergedd o ran diffiniadau, dulliau a chostau cyffredin. Mae'n debygol y bydd methodolegau a ddatblygir yn cynnwys casglu data sylfaenol a thechnegau modelu ar gyfer digwyddiadau mwy.

7.7 Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi crynodeb o'r dangosyddion perfformiad lefel uchel a fydd yn cael eu defnyddio wrth fesur llwyddiant y strategaeth hon.

| Effaith | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
|---|---|
| Economaidd | • Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu creu<br>• Nifer yr ymwelwyr o'r tu hwnt i Gymru a geir y tu allan i'r tymor prysur<br>• Cyfraniad ychwanegol net i'r economi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol<br>• Trosoledd buddsoddiad sector preifat<br>• Defnydd o gynnyrch a gwasanaethau lleol (Cymreig)<br>• Sylw yn y cyfryngau a darllediadau rhyngwladol |
| Cymdeithasol economaidd | • Nifer ac amrywiaeth y mynychwyr<br>• Nifer ac amrywiaeth y rhai sy'n cymryd rhan<br>• Nifer ac amrywiaeth y gwirfoddolwyr sy'n cael eu recriwtio/hyfforddi/defnyddio<br>• Darparu gweithgareddau craidd yn y Gymraeg. Perfformiadau Cymraeg. Defnydd o ddeunyddiau hyrwyddo, tocynnau, arwyddion dwyieithog etc.<br>• Rhaglenni allgymorth a digwyddiadau cysylltiol sy'n annog cyfranogaeth dorfol<br>• Sylw yn y cyfryngau a darllediadau rhyngwladol |
| Amgylcheddol | • Allyriadau carbon deuocsid<br>• Maint y gwastraff a gynhyrchir ac a ailgylchir<br>• Codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol<br>• Cael achrediad BS 8901<br>• Asesu'r effaith amgylcheddol |

# 8 Rhoi'r strategaeth ar waith

8.1 Mae adrannau blaenorol y strategaeth hon yn rhoi canllaw ymarferol ar gyfer y diwydiant digwyddiadau yng Nghymru. Mae'r adran hon yn amlinellu'r hyn y bydd yr Uned Digwyddiadau Mawr yn ei wneud er mwyn cryfhau safle Cymru fel cyrchfan boblogaidd ar gyfer digwyddiadau mawr o safon fyd-eang. Trwy weithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r diwydiant digwyddiadau, bydd yr Uned yn:

- Datblygu a lansio hunaniaeth weithredol a chynllun cyfathrebu 'Digwyddiadau Cymru' a fydd yn cynnwys:
  - gwefan yn benodol ar gyfer Digwyddiadau Mawr
  - calendr cenedlaethol o ddigwyddiadau mawr
  - cronfa ddata o berchnogion a threfnwyr digwyddiadau, a lleoliadau
  - cronfa ddata o ymchwil yn ymwneud ag effaith digwyddiadau mawr
  - pecyn ar-lein ar gyfer hunan-asesu a gwerthuso digwyddiadau yn y dyfodol
- Cydlynu cynllun gweithredu sgiliau, mewn cydweithrediad â'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol, i gryfhau'r gallu yng Nghymru i reoli digwyddiadau yn broffesiynol, o lefel hyfforddeion i raddedigion.
- Gwneud gwaith ymchwil i nodi digwyddiadau lleol a rhanbarthol sydd â'r potensial i dyfu.
- Sefydlu Cronfa Dwf gyda chyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer creu a meithrin digwyddiadau y tu allan i Gaerdydd.
- Gwneud gwaith ymchwil i nodi digwyddiadau mawr rhyngwladol y gallai Cymru gystadlu amdanynt neu eu denu.
- Archwilio'r potensial i ddatblygu'r cysyniad o docyn 'Gwyrdd' ar gyfer digwyddiadau.
- Mewn partneriaeth â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, darparu gwasanaeth ymgynghorol er mwyn rhoi cyngor ymarferol yn rhad ac am ddim i ddigwyddiadau er mwyn gwella'r canlyniadau o ran proffil a'r defnydd o'r Gymraeg mewn digwyddiadau mawr a digwyddiadau unigryw a gefnogir.
- Sefydlu Cynhadledd Ddigwyddiadau Flynyddol i hyrwyddo a marchnata Cymru fel cyrchfan ar gyfer digwyddiadau mawr.
- Cefnogi digwyddiadau sy'n manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012, a'r Safleoedd Hyfforddi a sefydlir yng Nghymru ar gyfer timau rhyngwladol cyn y Gemau.

# Beth yw eich barn?

| Cwestiwn 1: A yw ein strategaeth yn ei gwneud hi'n glir pa fath o ddigwyddiadau y byddwn yn eu cefnogi, a pha ddigwyddiadau na fyddwn eu cefnogi? | |
|---|---|
| Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| Sylwadau | |

| Cwestiwn 2: A yw'r egwyddorion craidd yn ei gwneud hi'n glir sut y byddwn yn blaenoriaethu'n ein buddsoddiadau mewn digwyddiadau mawr? | |
|---|---|
| Ydyn ☐ | Nac ydyn ☐ |
| Sylwadau | |

| **Cwestiwn 3: A yw'r fframwaith asesu (gweler Adran 5) yn addas at ei ddiben?** | |
|---|---|
| Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| Sylwadau | |

| **Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno mai'r Uned Digwyddiadau Mawr yw'r corff cenedlaethol a ddylai arwain o ran cefnogaeth y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddigwyddiadau mawr fel y'u disgrifir yn Adran 6 o'r strategaeth?** | |
|---|---|
| Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| Sylwadau | |

| **Cwestiwn 5: A yw'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr ydym wedi'u disgrifio yn Adran 7 yn addas at eu diben?** | |
|---|---|
| Ydyn ☐ | Nac ydyn ☐ |
| Sylwadau | |

| **Cwestiwn 6: A oes camau eraill y dylem ystyried eu cymryd wrth fynd ati i roi'r strategaeth ar waith?** | |
|---|---|
| Oes ☐ | Nac oes ☐ |
| Sylwadau | |

| **Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion nad ydym wedi rhoi sylw iddynt eisoes, defnyddiwch y blwch isod i ddweud wrthym amdanynt.** |
| --- |
| |

| **Eich enw, sefydliad a manylion cyswllt** |
| --- |
| |

**Mae'n bosibl y bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi ar y we neu mewn adroddiad. Os hoffech gadw'ch ymatebion yn gyfrinachol, ticiwch yma:** ☐

**Developing a Major Events Strategy for Wales**
**List of Organisations attending Stakeholder Workshops**

Aberystwyth Arts Centre
Aberystwyth University
Arup
Arts Council of Wales
Atom PR

Barnardo's Cymru
BBC Wales
Brecon Jazz Festival
British Council Wales
British Cycling
British Triathlon

Cadw
Canoe Wales
Cardiff & Co
Cardiff Business School
Cardiff Council
Cardiff Harbour Authority
Cardiff Hoteliers Association
Cartwright & Associates
Capital Regional Tourism
Celtic Manor Resort
Commonwealth Games Council for Wales
Coca Cola Enterprises
Conwy County Council
Cwmni Da TV
CyMAL

Disability Sport Wales
Deloitte
Dream Team TV

Faenol Festival
Football Association of Wales
Forestry Commission

Glamorgan County Cricket Club
Glyndwr University
Green Man Festival
Gwynedd County Council

Hay Festival

Live Nation
Llangollen International Music Eisteddfod

National Eisteddfod
National Library of Wales
National Museum Wales
Neath Port Talbot County Borough Council
Newport City Council
North Wales Events Group
North Wales International Music Festival
North Wales Regional Tourism Partnership

Millennium Stadium
Monmouthshire County Council

Platinum One Events
Pontardawe International Music Festival
Powys County Council
Push 4 Events

Ryder Cup Wales

S4C
Snowdonia National Park Authority
Sport Business International
Sports Council for Wales
Sports Marketing Surveys
City & County of Swansea
Swim Wales

Telesgop
Tennis Wales
Tourism Partnership Mid Wales

University of Glamorgan
Urdd

Valleys Kids
Venue Cymru
Visit Wales

Wales Arts International
Wales Council for Voluntary Action
Wales Millennium Centre
Wales Screen Commission
Welsh Athletics
Welsh Cycling
Welsh Gymnastics
Welsh Rugby Union
Welsh Triathlon Association
Welsh Yachting Association
Wrexham County Borough Council

Chief Executive Officers (or equivalent) of:

Aberystwyth University
Arts Council of Wales
ACW Revenue Funded Organisations
Arup Consulting
Atom PR
Barnardos Cymru
BBC Wales
British Council Wales
British Cycling
British Triathlon
Cadw
Cardiff & Co
Cardiff Business School
Cardiff City Stadium
Cardiff Hoteliers Association
CBI Wales
County and County Borough Councils in Wales
Cwmnida TV
Deloitte LLP
Dream Team TV
Environment Agency Wales
Faenol Festival
Federation of Small Businesses Wales
Forestry Commission Wales
Glamorgan County Cricket Club
Glyndwr University
ITV Wales
Liberty Stadium
Live Nation
National Eisteddfod
National Governing Bodies of Sport in Wales
National Library of Wales
National Museum Wales
National Park Authorities in Wales
Parc Y Scarlets
Platinum One Events
Push 4 Events
Regional Tourism Partnerships in Wales
Rugby Football League
Ryder Cup Wales 2010 Ltd
S4C
Stevens & Associates
SportBusiness International
Sports Council of Wales
Sports Marketing Surveys
Telesgop
Tenovus
UK Sport

University of Glamorgan Business School
University of Wales Institute Cardiff
Urdd Gobaith Cymru
Venue Cymru
Wales Council for Voluntary Action
Welsh Language Board
Welsh Local Government Association
Wales Millennium Centre
Wales Screen Commission
Welsh Sports Association